Swyddog Datblygu ac Allgymorth (Cymru)

Pecyn Recriwtio, Rhagfyr 2024

Rhwydweithiau Hanfodol

Diolch yn fawr am ddangos eich diddordeb yn y rôl Swyddog Datblygu ac Allgymorth (Cymru). Diben y pecyn hwn yw cynnig yr holl wybodaeth sydd ei hangen arnoch i benderfynu os ydych chi am ymgeisio am y rôl hon ai pheidio. Os oes gennych chi unrhyw ymholiadau pellach, cysylltwch gydag ein Rheolwr Datblygu ac Allgymorth, Sarah Pearce, ar sarah.pearce@heritagetrustnetwork.org.uk.

Amrywiaeth a Chydraddoldeb

Mae Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth yn cydnabod gwerth pobl o bob cefndir tuag at y sector treftadaeth ac ein mudiad ni. Mae'n hollbwysig ein bod ni'n sicrhau bod ein dull o rannu cyngor ynghylch adfer treftadaeth gymunedol yn adlewyrchu hanes, diwylliannau a diddordebau amrywiol yr ardaloedd rydym yn gweithio ynddyn nhw. Bydd meddu ar weithlu amrywiol a chynrychioliadol, lle caiff safbwyntiau eu gwerthfawrogi a'u hyrwyddo, yn fodd inni gyflawni hyn. Mae Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth yn ymroi i gynnig cyfleoedd cyfartal. Os oes gennych chi anabledd, byddwn yn fwy na bodlon trafod addasiadau rhesymol er mwyn ichi allu cyflawni'r rôl.

Sut i ymgeisio

1. Darllenwch yr holl wybodaeth yn y pecyn hwn.

2. Cwblhewch y ffurflen gais ar-lein erbyn Chwefror y 17 2025. Os na allwch chi agor yr hyperddolen, pastiwch y ddolen ganlynol ym mlwch eich porwr: https://www.tfaforms.com/5155027

3. Cwblhewch y ffurflen monitro cyfleoedd cyfartal ar wahân ar-lein yn ddienw erbyn yr un dyddiad. Os na allwch chi agor yr hyperddolen, pastiwch y ddolen ganlynol ym mlwch eich porwr: https://www.tfaforms.com/5155029

Os yw cwblhau ffurflen ar-lein yn peri anhawster ichi, cofiwch gysylltu gyda ni.

Mae'r swydd hon wedi'i hariannu gyda diolch i Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol am gyllid.

Amserlen Recriwtio

Dyddiadau	Manylion
Dyddiad cau ar gyfer ymgeisio	Chwefror y 17 2025
Llunio'r rhestr fer	Wythnos sy'n cychwyn ar Chwefror y 17 2025
Cyfweliadau (ar-lein dros Zoom)	Wythnos sy'n cychwyn ar Chwefror y 24 2025
Hysbysu'r cyfweleion aflwyddiannus a phenodi'r ymgeisydd llwyddiannus	Wythnos sy'n cychwyn ar Chwefror yr 24 2025

Crynodeb o fanylion y swydd

Teitl y swydd: Swyddog Datblygu ac Allgymorth i Gymru

Cyflog: £30,000 y flwyddyn pro-rata

Oriau: rhan amser (20 awr yr wythnos) gyda chyfnod prawf o 3 mis

Yn atebol i: Rheolwr Datblygu ac Allgymorth

Gwyliau: 25 diwrnod y flwyddyn pro-rata, gan gynnwys 3 diwrnod lle bydd y mudiad ar gau rhwng y Nadolig a'r Flwyddyn Newydd a'r holl wyliau cyhoeddus yng Nghymru

Pensiwn: yn unol â'r gofynion cofrestru awtomatig statudol

Lleoliad: gweithio o adref neu o weithle ar y cyd y cytunwyd arni unrhyw le yng Nghymru.

Mwy o wybodaeth am y Rhwydwaith

Mae sawl un yn cael modd i fyw o weld adeiladau a mannau hanesyddol wedi'u hadfywio. Mae'n adfer ymdeimlad o falchder a hunaniaeth leol ac yn creu swyddi, gweithleoedd, atyniadau ymwelwyr, cyfleusterau addysg, canolfannau celfyddydau a mwy. Drwy ail-ddefnyddio adeiladau presennol, mae ein haelodau'n cadw carbon ymgorfforedig ac yn herio'r syniad bod adfywio'n golygu dymchwel ac ail-adeiladu. Mae miloedd o bobl yn bwrw iddi i gyflawni'r gwaith anhygoel hwn ym mhob cwr o'r DU, naill ai yn broffesiynol neu'n wirfoddol.

Mae Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth yn gorff aelodaeth ar gyfer mudiadau cymunedol annibynnol, elusennau a mentrau cymdeithasol sy'n achub, adfer ac yn rheoli adeiladau hanesyddol, parciau, gerddi, camlesi a rheilffyrdd. Ymysg ein haelodau mae mudiadau sydd wedi'u sefydlu'n benodol er mwyn adfer safleoedd treftadaeth ynghyd â mudiadau cymunedol sy'n cyflawni mathau eraill o wasanaethau ac sydd wedi'u dewis i weithredu o adeiladau a mannau hanesyddol. Rydym hefyd yn croesawu unigolion, busnesau ac awdurdodau lleol sy'n cefnogi gweithrediadau treftadaeth leol. Gyda'n gilydd rydym yn mynd ati i drefnu cynadleddau, ymweliadau safle, cyfarfodydd ac adnoddau ar-lein lle gallwn rwydweithio a dysgu gan ein gilydd ynghyd â chwrdd ag arbenigwyr ac arianwyr.

Rydym yn…

- Annog pobl i fod ynghlwm â'r gwaith adfer adeiladau a mannau treftadaeth leol drwy ffurfio mudiadau cymunedol newydd neu weithredu ar ran mudiadau presennol.
- Cefnogi'r mudiadau hyn i adfer ac ail-ddefnyddio treftadaeth leol drwy gynnig gwybodaeth, cyngor, rhwydweithio a dysgu rhwng cyfoedion
- Hyrwyddo'r gwaith a chodi ymwybyddiaeth o fudiadau treftadaeth gymunedol ynghyd ag amlygu'r llu o fanteision cyhoeddus maen nhw'n eu cynnig
- Eirioli dros amgylchedd deddfwriaethol, polisi a chyllid sy'n hwyluso gweithredu ar lawr gwlad ar ran treftadaeth
- Hybu amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector treftadaeth.

Mae'r Rhwydwaith yn prysur dyfu a chanddo dros 900 o aelodau a thîm staff o chwech:

David Tittle, Prif Weithredwr

Vicki Cox, Swyddog Aelodaeth

Beverley Gormley, Rheolwr Rhaglen

Sarah Pearce, Rheolwr Datblygu ac Allgymorth

Izabella Maar, Cynorthwyydd Prosiectau

Grace Richardson, Gweithiwr Treftadaeth dan Hyfforddiant (Yr Alban)

Mae'r Rhwydwaith wedi'i lywodraethu gan fwrdd o gyfarwyddwyr sef deuddeg o bobl gan gynnwys rhai o'n haelodau a gweithwyr proffesiynol eraill sy'n gweithio yn y maes.

Mwy o wybodaeth am Rwydweithiau Hanfodol

Caiff y rôl hon ei chreu fel rhan o gam cyflawni prosiect Rhwydweithiau Hanfodol. Mae Rhwydweithiau Hanfodol yn brosiect datblygu a gwydnwch sylweddol a fyddai'n trawsnewid gallu'r Rhwydwaith i rymuso pobl i adfer ac ail-ddefnyddio adeiladau a mannau hanesyddol er budd eu cymunedau. Bydd y prosiect ar waith o Dachwedd 2024 hyd at Fawrth 2029. Rydym yn disgwyl hefyd i'r rôl hon gael ei hariannu gan Cadw sy'n ariannu'r Rhwydwaith yn rheolaidd, ond ni ellir cadarnhau hyn eto.

Gyda grant o £1,364,588 gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol, ein nod yw grymuso miloedd o bobl, o ystod eang o wahanol gefndiroedd ledled y DU i ddod ynghyd i adfer ac ail-ddefnyddio mannau hanesyddol er budd eu cymunedau. Hoffem hybu Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth (sydd wedi'i ail-frandio fel y Rhwydwaith Treftadaeth bellach) fel ei fod yn fwy effeithiol a gwydn gan sicrhau ei fod yn meddu ar y tîm staff, y seilwaith digidol a'r cynaliadwyedd ariannol sydd ei angen arno i gyflawni'r canlynol:

- cynnig rhaglen hollgynhwysol o gymorth, arbenigedd, gwybodaeth, dysgu rhwng cyfoedion a rhwydweithio ar gyfer pawb sy'n gweithio ar adfywio treftadaeth leol.
- dathlu, cefnogi a hyrwyddo pwysigrwydd treftadaeth dan arweiniad y gymuned yn effeithiol ar gyfer adfywio cynaliadwy.
- datblygu rhwydweithiau cyflenwol o fusnesau, awdurdodau lleol ac unigolion cefnogol.
- rhoi cyfle i bobl ifanc chwarae rhan lawn yn y sector treftadaeth gymunedol.

Yn ei dro bydd hyn yn galluogi cannoedd mwy o fudiadau cymunedol i fwrw iddi i adfer ac ail-ddefnyddio adeiladau a mannau sy'n annatod i'w cymunedau'n llwyddiannus. At hyn, bydd yn fodd o ddatblygu Rhwydwaith mwy gwydn sy'n gallu datblygu'r gwaith hwn i'r degawd nesaf.

Byddwn yn datblygu porth aelodau a gwefan newydd gan greu un man penodol i fudiadau treftadaeth gymunedol allu rhyngweithio gyda'r Rhwydwaith, manteisio ar wybodaeth a chyngor, adnewyddu eu haelodaeth a chadw lle mewn digwyddiadau. Bydd mentrau, megis rhaglenni addysg, gwiriadau iechyd sefydliadol a phanel arbenigol yn darparu ffyrdd newydd i fudiadau treftadaeth gymunedol fod yn fwy effeithiol a gwydn. Bydd allestyn i gymunedau sydd wedi'u hymyleiddio yn sicrhau bod y sector treftadaeth gymunedol yn fwy amrywiol a chynhwysol. Yn ystod cyfnod y prosiect, bydd ein tîm staff yn ehangu i 13 gan gynnwys:

- Swyddog Datblygu ac Allgymorth i Gymru (rhan amser)
- Swyddog Datblygu ac Allgymorth i Ogledd Iwerddon (rhan amser)
- Rheolwr Datblygu Busnes
- Swyddog Marchnata a Chyfathrebu
- Gweithiwr Treftadaeth dan Hyfforddiant (y DU)
- Swyddog Datblygu ac Allgymorth i Loegr (yn ddibynnol ar gyllid arall)
- Gweithiwr Treftadaeth dan Hyfforddiant (Lloegr) (yn ddibynnol ar gyllid arall)

Eich Nodweddion Chi

Byddwch yn aelod tîm gweithgar sy'n gallu cymell eich hun ac sy'n ymrwymo i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Byddwch yn cyd-dynnu fel tîm ac yn cynnig gwasanaeth cwsmer ardderchog bob amser gan gyfathrebu'n amserol gydag eich cydweithwyr, a dangos boddhad pan fyddwch wedi cyflawni gwaith da wrth gefnogi aelodau a meithrin perthnasau. Mae cysylltu gyda phobl yn rhan o'ch natur ac mae eich diddordeb mewn adfywio, treftadaeth a chynaliadwyedd o ran yr amgylchedd adeiledig yn gwbl amlwg, ynghyd â'ch parodrwydd i gynorthwyo'r rheiny sy'n achub, yn adfer ac yn ail-ddefnyddio adeiladau hŷn.

Rôl

Mae hon yn rôl bwysig o fewn Rhwydweithiau Hanfodol: prosiect datblygu a gwydnwch ar ran Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth, ein haelodau a threftadaeth y DU. Bydd deiliad y swydd yn gyfrifol am ddatblygu'r Rhwydwaith yng Nghymru gan gynnwys cyflawni gweithgarwch allgymorth wedi'i dargedu, recriwtio aelodau newydd, cefnogi aelodau presennol, trefnu digwyddiadau a meithrin partneriaethau. Caiff y Swyddog Datblygu ei gefnogi gan y Rheolwr Datblygu ac Allgymorth, Rheolwr Rhaglen, Prif Weithredwr, staff eraill y DU a'r Pwyllgor dros Gymru.

Prif Gyfrifoldebau

1. Adnabod mudiadau cymunedol yng Nghymru sy'n adfer ac yn rheoli safleoedd hanesyddol (neu sydd ynghlwm â, neu'n awyddus i ail-ddefnyddio safleoedd hanesyddol lleol) a hyrwyddo buddion ymaelodi â'r Rhwydwaith iddyn nhw er mwyn darparu modd iddyn nhw fanteisio ar gymorth.
2. Cynnig cyngor, gwybodaeth, gwasanaeth cyfeirio a hwyluso dysgu rhwng cyfoedion i aelodau Rhwydwaith yng Nghymru.
3. Meithrin a chynnal cyswllt rheolaidd gydag aelodau'r Rhwydwaith er mwyn deall eu hanghenion a'u dyheadau, i'w cefnogi a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth eraill.
4. Cydweithio gyda'r Swyddog Cyfathrebu i gyhoeddi e-newyddlen rheolaidd yng Nghymru i hysbysu'r aelodau o ddigwyddiadau a chyfleoedd penodol yng Nghymru.

5. Hyrwyddo llwyddiannau aelodau'r Rhwydwaith yng Nghymru drwy lunio astudiaethau achos, erthyglau a chyflwyniadau a'u hyrwyddo ar y cyfryngau cymdeithasol.
6. Cydweithio gyda'r Rheolwr Rhaglen, pwyllgor Cymru a, lle'n briodol, y Rheolwr Datblygu Busnes, i gynllunio a threfnu digwyddiadau Rhwydweithio yng Nghymru.
7. Trefnu a chydlynu cyfarfodydd Pwyllgor Cymru. Pan fo'n briodol, trefnu recriwtio aelodau ar gyfer pwyllgor Cymru.
8. Gweithredu fel person cyswllt ar gyfer y Rhwydwaith yng Nghymru a chydweithio gyda Phwyllgor Cymru i gynrychioli Rhwydwaith y mudiad ar rwydweithiau, fforymau a phwyllgorau fel sy'n briodol.
9. Cydweithio gyda Phwyllgor Cymru i feithrin a chynnal cyswllt gyda mudiadau partner presennol ac arfaethedig yn y sectorau gwirfoddol a phreifat, y llywodraeth leol a Llywodraeth Cymru ac archwilio sut gallwn gydweithio i hyrwyddo a chefnogi treftadaeth gymunedol.
10. Cydweithio gyda'r Swyddog Cyfathrebu a Phwyllgor Cymru i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth ymhlith mudiadau statudol, asiantaethau ac arianwyr eraill, ynghylch sut gallai aelodau'r Rhwydwaith gyflawni amcanion cydlyniant cymunedol, adfywio economaidd a llesiant gan adfer safleoedd treftadaeth sydd mewn perygl.
11. Cyflwyno adroddiadau rheolaidd i'r Rheolwr Rhaglen, y Bwrdd a Phwyllgor Cymru am eich gwaith.
12. Pob blwyddyn, mewn ymgynghoriad â'r tîm staff, y bwrdd a Phwyllgor Cymru, adnabod prosiectau allgymorth arfaethedig ac ymchwilio eu dichonoldeb. Nodi a chytuno ar o leiaf un i fynd rhagddi gydag o.
13. Cyflawni ymchwil i adnabod mudiadau yn y grŵp targed allgymorth, cysylltu gyda nhw a'u hysbysu o'r prosiect allgymorth a'r buddion ehangach o ymaelodi gyda'r Rhwydwaith.
14. Trefnu cyfarfodydd un-i-un gyda'r mudiad buddiolwyr allgymorth, cynnig cyngor a'u cyfeirio at ffynonellau cymorth eraill.
15. Trefnu digwyddiadau dysgu gan gyfoedion a rhwydweithio, ar-lein ac wyneb yn wyneb i gysylltu gyda mudiadau buddiolwyr.
16. Llunio deunydd cyfathrebu, erthyglau, dogfennau canllaw ac astudiaethau achos yn y Gymraeg a'r Saesneg.

Cyfrifoldebau Cyffredinol

1. Gweithio fel aelod cefnogol o'r tîm Rhwydwaith, gan weithio yn lle cydweithwyr absennol pan fo'n briodol, ynghyd â sicrhau bod y gweithgareddau'n gyflenwol a chyflawni Cynllun Strategaeth a Busnes y Rhwydwaith.
2. Helpu i hyrwyddo adfer ac ail-ddefnyddio adeiladau, strwythurau a mannau hanesyddol; yn enwedig gan elusennau, mentrau cymdeithasol a mudiadau cymunedol.
3. Sicrhau bod holl weithgareddau'r Rhwydwaith a'r holl ddeunydd cyfathrebu i aelodau'n hygyrch, yn hollgynhwysol ac o ansawdd uchel.
4. Cynrychioli Rhwydwaith yr Ymddiriedolaeth Treftadaeth mewn digwyddiadau ar-lein ac wyneb yn wyneb.
5. Cyflawni dyletswyddau mewn ffordd dryloyw (e.e. gan ddefnyddio system calendr mewnol y Rhwydwaith, storio ffeiliau digidol mewn mannau ar y cyd y cytunwyd arnyn nhw, cofnodi

gweithgarwch ar y system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid), a defnyddio systemau a phrotocolau digidol y Rhwydwaith y cytunwyd arnyn nhw, a holl bolisïau a gweithdrefnau eraill.

Manyleb Person

Hanfodol	Dymunol
Hyfforddiant, profiad a chymwysterau	
Profiad sy'n berthnasol i'r prif gyfrifoldebau	Profiad mewn rôl gymunedol neu wasanaeth cwsmer lle'r oedd gofyn i'r ymgeisydd weithio gydag ystod amrywiol o bobl. Profiad o ddefnyddio system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (CRM)*, System Rheoli Cynnwys (CSM)* a'r cyfryngau cymdeithasol
Gwybodaeth a sgiliau	
Sgiliau rhyngbersonol da gyda'r gallu i gydweithio gydag ystod amrywiol o bobl Sgiliau trefnu da gan gynnwys y gallu i gadw cofnodion manwl Sgiliau cyfathrebu llafar ac ysgrifenedig da gan gynnwys y gallu i addasu arddulliau cyfathrebu i gyd-fynd ag amrywiaeth o amgylchiadau Sgiliau digidol da Ymrwymiad amlwg tuag at dreftadaeth, datblygu cymunedol neu faes arall sy'n berthnasol i'r rôl hon	Sgiliau ymchwil Y gallu i flaenoriaethu, bod yn hyblyg ac yn gallu addasu i weddu i lwyth gwaith heriol Dealltwriaeth o'r canlynol: • ymgysylltu cymunedol gyda lleoedd • manteision yr amgylchedd hanesyddol ar gyfer pobl a lleoedd • y broses datblygu a'r system cynllunio • mudiadau, polisïau ac arferion yr amgylchedd hanesyddol • materion ynghylch amrywiaeth a chynhwysiant yn y sector treftadaeth • y sector gwirfoddol a chymunedol Siaradwr Cymraeg

*Mae 'CRM' yn llwyfan 'rheoli cysylltiadau cwsmeriaid' sy'n ein helpu i reoli ein rhyngweithio gydag aelodau, aelodau arfaethedig a rhanddeiliaid eraill. Mae *CMS yn 'system rheoli cynnwys' sy'n feddalwedd sy'n helpu defnyddwyr i greu, rheoli ac addasu cynnwys ar wefan.